



---

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru

### **SFWIN 06/2022**

Diwygiadau i'w cynnwys yn y Rheoliadau Cymorth i Fyfyrwyr a rheoliadau cysylltiedig ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2022/23 (Cymhwystra ar gyfer Gwladolion Wcreinaidd ac Aelodau o'u Teuluoedd)

## **Diwygiadau i'w cynnwys yn y Rheoliadau Cymorth i Fyfyrrwyr a rheoliadau cysylltiedig ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2022/23**

Mae Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrrwyr) (Cymhwysra ar gyfer Gwladolion Wcreinaidd ac Aelodau o'u Teuluoedd) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2022 ("Rheoliadau 2022") yn cael eu drafftio ar hyn o bryd ac unwaith y byddant wedi eu gwneud, byddant yn gwneud personau y rhoddir caniatâd iddynt aros o dan Gynllun Wcráin y Swyddfa Gartref (fel y'i diffinnir isod) yn gymwys ar gyfer cymorth i fyfyrrwyr, statws ffioedd cartref, a'r cap ar ffioedd dysgu israddedig wrth gychwyn neu barhau cwrs ar neu ar ôl 1 Awst 2022.

Mae Rheoliadau 2022, sydd i ddod i rym ar 1 Awst 2022, yn gymwys i flynyddoedd academaidd sy'n cychwyn ar neu ar ôl 1 Awst 2022 ac maent yn gwneud y newidiadau fel y nodir isod.

Mae'r Swyddfa Gartref wedi sicrhau bod tri llwybr mewnfudo ar gael i'r rheini sydd wedi eu dadleoli gan y gwrthdaro yn Wcráin: y Cynllun Teuluoedd o Wcráin, y Cynllun Noddi Cartrefi i Wcráin a'r Cynllun Estyn Cyfnod Gwladolion Wcráin, y'u gelwir gyda'i gilydd yn Gynlluniau Wcráin. Mae pedwerydd llwybr ar gael, lle rhoddir caniatâd i aros y tu allan i'r Rheolau Mewnfudo.

Bydd diwygiadau yn cael eu gwneud i reoliadau i wneud darpariaeth i'r rhai y rhoddir caniatâd iddynt aros o dan y Cynlluniau Wcráin neu y rhoddir caniatâd iddynt aros y tu allan i'r Rheolau Mewnfudo i fod yn gymwys ar gyfer cymorth i fyfyrrwyr israddedig, ôl-raddedig ar gyrsiau Meistr, a doethurol, ac i fod yn gymwys ar gyfer statws ffioedd cartref a'r cap ar ffioedd dysgu, yn unol â chategorïau eraill sy'n seiliedig ar warchod.

### **Meinir prawf cymhwysra**

Bydd person yn gymwys ar gyfer cymorth i fyfyrrwyr israddedig neu ôl-raddedig, statws ffioedd cartref, a'r cap ar ffioedd dysgu israddedig mewn cysylltiad â'r flwyddyn academaidd sy'n cychwyn ar neu ar ôl 1 Awst 2022 os yw'r person hwnnw:

- (a) wedi cael caniatâd i aros o dan y Cynlluniau Wcráin;
- (b) wedi cael caniatâd i aros y tu allan i'r Rheolau Mewnfudo am reswm sy'n gysylltiedig â'r gwrthdaro yn Wcráin;
- (c) yn arfer preswyllo yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswyllo felly er pan roddwyd caniatâd iddo aros o dan y Cynllun Wcráin neu y tu allan i'r Rheolau Mewnfudo; a
- (d) yn arfer preswyllo yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

## **Dod yn gymwys yn ystod blwyddyn academiaidd**

Mae diwygiad yn cael ei wneud i alluogi person y rhoddir caniatâd iddo aros o dan y Cynlluniau Wcráin yn ystod blwyddyn academiaidd i ddod yn gymwys ar gyfer cymorth i fyfyrwyr, statws ffioedd cartref a chap ar ffioedd dysgu cyn belled â'i fod yn bodloni'r holl ofynion eraill, gan gynnwys y gofynion diwrnod cyntaf.

## **Terfynu cymhwysra**

Bydd darpariaeth 'terfynu' yn cael ei hychwanegu at y Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 a'r Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017 fel na fydd person nad oes ganddo bellach ganiatâd i aros o dan y Cynllun Wcráin na chaniatâd i aros y tu allan i'r Rheolau Mewnfudo yn gymwys ar gyfer cymorth i fyfyrwyr, statws ffioedd cartref na'r cap ar ffioedd dysgu.

## **Rheoliadau**

Y rheoliadau i'w diwygio yw:

- (a) Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007;
- (b) Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014;
- (c) Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015;
- (d) Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017;
- (e) Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018;
- (f) Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018; a
- (g) Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019.

## **Ymholiadau**

Gall darllenwyr gysylltu â Llywodraeth Cymru neu gyda'u cyswllt arferol yn y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr/Cyllid Myfyrwyr Cymru i gael rhagor o wybodaeth am gymhwysra. Gellir cysylltu â Llywodraeth Cymru ar:

[isadrancyllidmyfyrwyr@llyw.cymru](mailto:isadrancyllidmyfyrwyr@llyw.cymru). Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.